

## Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd

### COFNODION

Cofnodion Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd a gynhaliwyd ddydd Iau 15 Hydref 2015 yn Ystafelloedd Eleth ac Eilian, wrth ymyl swyddfa safle Wylfa Newydd.

### Yn Bresennol:

Enw	Sefydliad
Y Cyng. Aled Morris Jones	Ward Twrcelyn
Alun Roberts	Cymunedau yn Gyntaf Ynys Môn
Anna M Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Anne Jones	Morgan Evans & Co LTD
Dafydd Rhys Thomas	Ynys Gybi
Daryl Williams	Unite the Union
Y Cyng. Elfed Jones	Cyngor Cymuned Llanbadrig
Eric Torr	Cwmni Cemaes Cyf/ Ynni Talybolion
Gwilym Williams	Clough & Co
Jeffrey M. Evans	Ynys Gybi
Margaret Thomas	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Sarah Andrews	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Tom Conway	Cymdeithas Gweithwyr wedi Ymddeol Wylfa/Clwb Pêl-droed Bae Cemaes
Y Cyng. Trefor Jones	Cyngor Cymuned Tref Alaw
Will Edwards	Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU)
Y Cyng. William Thomas Hughes	Ward Twrcelyn
Wyn Thomas	Cyfarwyddwr Adnoddau a Datblygu Coleg Menai/Grŵp Llandrillo Menai
Trefor Jones	Prifysgol Bangor
Simon Jones	Morgan Evans
Neil Gore	Dŵr Cymru
Craig ab Iago	Ar ran Rhun ap Iorwerth AC
Y cyhoedd	
Mel O'Hara	Aelod o'r cyhoedd

### Ymddiheuriadau:

Enw	Sefydliad
Abi Hughes	Anabledd Taran
Adam Williams	Ysgol Uwchradd Caergybi
Aled Roberts	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ogledd Cymru
Alli Hunt	Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear
Alun Ffred Jones AC	Aelod Cynulliad - Arfon
Annette Jones	Sefydliad y Merched Ynys Môn
Arthur Owen	Cyfarwyddwr Datblygu Cynaliadwy, Cyngor Sir Ynys Môn
Carys Edwards	Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyngor Sir Ynys Môn
Dafydd Elis Thomas AC	Dwyfor Meirionnydd

David Shepherd	Prifysgol Bangor
Dewi Morgan	Cynrychiolydd o Gyngor Gwynedd
Enid Williams	Gwasanaeth Ieuencid Ynys Môn
Guto Bebb AS	Aberconwy
Y Cyng. Gwilym O Jones	Ward Llifon
Gwynne Morris Jones	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
Helen George	Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Hywel Williams AS	Aelod Seneddol Arfon
Jackie Blackwell	Canolfan Cyngor ar Bopeth Ynys Môn
Janet Finch Saunders AC	Conwy
Jean Jones	Ysgol Syr Thomas Jones
John Chamberlain	Cymdeithas Amaethyddol Môn/Clwb Rotari Caergybi
Y Cyng. John Jukes	Cyngor Cymuned Llannerch-y-medd
Y Cyng. Kenneth P Hughes	Ward Talybolion
Llyr Gruffydd AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ogledd Cymru
Mark Isherwood AC	Aelod Rhanbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru dros Ogledd Cymru
Maurice Core	Cynrychiolydd Safle NDAQ/OCNS
Melanie Wymer	Ymddiriedolaeth Bodorgan
Meryl Davies	Merched y Wawr
Paddy McNaught	Unite the Union
Phil Scott	Partneriaeth Twristiaeth Ynys Môn
Simon Roscoe	Heddlu Gogledd Cymru
Steve Graham	Y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear
Trevor Howes	CNC – Swyddog Cyswllt Rhanddeiliaid/Pwynt Cyswllt Unigol yr Adeilad Niwclear Newydd
W Raymond Evans	Ffederasiwn Busnesau Bach Ynys Môn
<b>Y cyhoedd</b>	
Jill Evans	
Michael Dodds	

Os nad yw eich enw, drwy ryw amryfusedd, ar y rhestr neu os yw wedi'i gofnodi'n anghywir, cysylltwch â Horizon ar 0800 954 9516 neu trwy ebost [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com).

I gael gwybodaeth gyffredinol am y prosiect neu i ofyn unrhyw gwestiynau i Horizon, cysylltwch â'r tîm ar 0800 954 9516 neu yn [ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com](mailto:ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com) ac ewch i <http://www.horizonnuclearpower.com/hafan>

Mae modd gweld y cofnodion hyn a'r holl gyflwyniadau o gyfarfod Grŵp Cyswllt y Prosiect ar <http://www.wylfaplq.com/cymraeg/>

### **1. Gair o groeso gan y Cadeirydd**

- Estynnodd y Cadeirydd, Dennis Evans (DE), groeso i bawb i'r cyfarfod.

### **2. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

- Nododd Dr Tom Conway (TC) nad oedd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr presenoldeb. Ar wahân i hynny cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol (21 Mai 2015) yn gofnod gwir a chywir o drafodaethau'r cyfarfod a chawsant eu cymeradwyo gan yr aelodau.

### **3. Materion yn codi**

- Soniodd yr aelodau am y newyddion bod Conygar yn ddiweddar wedi prynu tir yn hen safle Shell ger Rhosgoch gan Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, gan ofyn a oedd rhagor o wybodaeth ar gael. Dywedodd Greg Evans (GE), Pŵer Niwclear Horizon, fod Horizon yn ymwybodol o'r datblygiad ond nad oedd ganddo unrhyw wybodaeth ar wahân i'r hyn a gafwyd yn y cyhoeddiad i'r cyhoedd. Ymrwymodd i wneud yn siŵr bod aelodau'r Grŵp Cyswllt yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y pwynt hwn.
- Holodd TC a fyddai modd gwneud unrhyw beth am y gwasanaethau bws lleol mewn perthynas â chynlluniau traffig a thrafnidiaeth Horizon. Dywedodd fod y gwasanaethau bws yn ôl ac ymlaen o Fae Cemaes yn ddifrifol ar hyn o bryd, ac nad oedd unrhyw welliannau'n debygol. Er bod bws yn mynd rhwng Bangor ac Amlwch bob hanner awr, nid yw'r un gwasanaeth ar gael rhwng Amlwch a Chaergybi, ac nid oes cysylltiad o gwbl rhwng gwasanaeth bws 62 Arriva a gwasanaeth bws 61 Lewis y Llan. Gofynnodd a fyddai modd i'r Grŵp Cyswllt helpu i ddatrys y mater hwn. Nododd DE fod nifer o gynghorwyr sir yn bresennol yn y cyfarfod ac anogodd TC i siarad â'i gynghorydd lleol os nad oedd wedi gwneud hynny'n barod.
- Dywedodd DE fod gwybodaeth ynglŷn ag ymgynghoriad Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru National Grid wedi cael ei dosbarthu'n ddiweddar ac roedd yn gobeithio bod pawb wedi cael y wybodaeth gysylltiedig drwy'r post.
- Dywedodd DE fod Martin Kinsey, National Grid, wedi symud ymlaen i swydd newydd. Gofynnodd TC i'r Grŵp Cyswllt gofnodi eu diolch i National Grid am ei gyfraniad gwerthfawr yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

### **4. Cyflwyniad gan y dirprwy gadeirydd newydd – Wyn Thomas, Coleg Menai/Grŵp Llandrillo Menai**

- Diolchodd Wyn Thomas (WT) i holl aelodau'r Grŵp Cyswllt am ei ethol yn ddirprwy gadeirydd newydd, ac addawodd gyflawni'r rôl hyd eithaf ei allu.
- Esboniodd WT strwythur Grŵp Llandrillo Menai yn gryno, gan ddweud bod y Coleg wedi cael ei sefydlu yn sgil yr uno rhwng Coleg Llandrillo a Choleg Menai. Dyma'r coleg addysg bellach mwyaf yng Nghymru a thua'r pumed mwyaf yn y DU, gydag oddeutu 27,000 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ac oddeutu 2,000 o staff cyflogedig.
- Dywedodd WT mai pwrpas Grŵp Llandrillo Menai oedd sicrhau bod gan bobl sgiliau ar gyfer swyddi. Dywedodd y byddai naw o bob 10 swydd yn ystod y cyfnod adeiladu yn galw am gymhwyster technegol neu alwedigaethol yn hytrach na gradd. Byddai'r un peth yn wir i wyth o bob naw swydd yn ystod y cyfnod gweithredu. Ychwanegodd WT y byddai rhwng £12m a £14m yn cael ei fuddsoddi yng nghampws Llangefni erbyn mis Medi 2018, gan ddyblu maint y campws. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gefnogol iawn yn hyn o beth.
- Aeth WT ymlaen i egluro ei rôl yn Grŵp Cyswllt Prosiect Wylfa Newydd, sef ymgysylltu adeiladol – yn benodol o ran hyfforddiant a sgiliau. Dywedodd fod angen iddo gael dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu

hangen ar gyfer y Prosiect er mwyn gwneud yn siŵr bod y sgiliau cywir yn cael eu cynnig ar yr adeg gywir ac ar y raddfa gywir. Pwysleisiodd WT mai'r nod oedd helpu pobl yn y gymuned leol i gael y sgiliau perthnasol a blaenoriaethu hynny. Dywedodd y byddent yn gwthio'n galed i annog pobl leol fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth.

- Dywedodd WT nad oedd unrhyw reswm i bobl beidio â manteisio ar y cyfle anferthol hwn, yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Atgoffodd WT y cyfarfod y byddai'r prosiect hwn yn fwy na Gemau Olympaidd Llundain o ran buddsoddiad.
- Eglurodd WT nad oedd gan Grŵp Llandrillo Menai, fel corff cyhoeddus, unrhyw safbwynt gwleidyddol o ran pŵer niwclear a dywedodd mai nod a dyhead y Grŵp oedd gwneud yn siŵr bod pobl ifanc yn cael y sgiliau angenrheidiol i gael swyddi da yn yr ardal hon a gwneud gwahaniaeth go iawn yn lleol. Ar hyn o bryd mae 600 o bobl ifanc yn gadael yr ardal bob blwyddyn a ddim yn dychwelyd. Mae hyn yn destun cryn bryder sy'n gwneud y cymunedau lleol yn llai cynaliadwy.
- Holodd Dafydd Rhys Thomas pa gyfleoedd dysgu sydd ar gael i bobl sy'n gweithio rhwng 9am a 5pm ond sy'n dymuno dysgu sgiliau newydd er mwyn cael budd o'r cyfleoedd newydd hyn.
  - Cyngor WT oedd edrych ym mhrosiectws y Coleg i ddechrau arni. Ychwanegodd fod cyrsiau byr ar gael, dros 2 neu 3 diwrnod fel arfer. Weithiau bydd pobl yn cymryd gwyliau byr o'r gwaith er mwyn dod iddynt. Mae cyrsiau gyda'r nos ar gael hefyd (mae'r cyfleusterau ar agor tan 7 neu 8pm erbyn hyn) ac mae e-gyrsiau ar gael sy'n galluogi pobl i'w gwneud o amgylch gwaith llawn amser neu ofal plant.
  - Mae'r Coleg hefyd yn cynnig cyrsiau hyfforddi ar gyfer busnesau. Yn wir bydd cyflogwyr lleol yn dod at y Coleg er mwyn gwella sgiliau'r gweithlu.

Manylion cysylltu: Wyn Thomas  
01248 370 125 Est 2201  
[thomas1w@gllm.ac.uk](mailto:thomas1w@gllm.ac.uk)

## **5. Y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau Prosiect Wylfa Newydd – Greg Evans, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Safle**

- Dechreuodd Greg Evans (GE) drwy ddweud pa mor falch ydyw o fod yn ôl yn Wylfa. Mae'n credu mai Wylfa Newydd yw'r datblygiad cywir, ar yr amser cywir, yn y lle cywir. Mae gan Wylfa Newydd rôl wirioneddol i'w chwarae yn y gymysgedd amrywiol o ddulliau cynhyrchu ynni sydd yn y DU.
- Atgoffodd y cyfarfod am yr anawsterau a wynebodd Gorsaf Bŵer bresennol Wylfa yn ystod ei flynyddoedd cyntaf yn yr orsaf, a'r cyfnod segur o 15 mis yn fwy na dim. Cyfaddefodd GE fod hwnnw'n gyfnod anodd, a oedd wedi gofyn am ymdrech enfawr o ran peirianeg ac o ran cynnal morâl. Roedd y sefyllfa wedi'i hadfer yn dda ac roedd gwaith wedi aildechrau, ond roedd yr atgofion cynnes hynny o'i ddyddiau cynnar ar y safle yn ei feddwl o hyd wrth i'r dyddiad dadgomisiynu agosáu.
- Trafododd GE y rôl bwysig mae gorsaf bŵer bresennol Wylfa wedi'i chwarae yn y gymuned leol a'r ffaith ei bod yn rhan annatod o'r diwylliant lleol. Pan oedd ef yn Wylfa, roedd 81-85 y cant o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg, o'i gymharu â 56 y cant o boblogaeth Ynys Môn. Dywedodd mai Saesneg oedd iaith busnes a'i bod yn cael ei defnyddio fel y 'nodwedd gyffredin leiaf'. Ei awgrym ef oedd na ddylai pobl ofni y bydd Wylfa Newydd yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg.

- Eglurodd GE ei fod wedi bod yn gweithio yn Llundain gyda Centrica, cwmni ynni a gwasanaethau, am y chwe blynedd diwethaf. Dywedodd fod ei deulu wedi aros ar Ynys Môn yn ystod y cyfnod hwnnw wrth iddo yntau deithio'n ôl ac ymlaen i Lundain, felly roedd yn hynod o falch o fod yn ôl.
- Trafododd GE greu swyddi a dywedodd y dylai'r brifysgol, ysgolion, colegau a darparwyr gwasanaethau ddechrau datblygu'r cyfleoedd hyfforddi er mwyn gwneud yn siŵr bod gyrfaedd gwerth chweil ar gael i bobl leol. Dywedodd GE mai'r sgil yr oedd mwyaf o alw amdani ar hyn o bryd oedd yr yr agwedd a'r ymddygiad iawn. Ychwanegodd ei fod yn dymuno creu awyrgylch mwy cefnogol lle'r oedd pobl yn cymryd yr awenau ac yn dechrau ystyried beth gallent ei wneud er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a fyddai'n cael eu creu.
- Dywedodd GE mai'r bwriad oedd denu a chadw talent am yr 80 mlynedd nesaf. Nododd ei bod yn bur debyg bod llawer o'r gweithredwyr adweithyddion a fydd yn gweithio yn Wylfa Newydd yn y dyfodol rhwng 12 a 18 oed ar hyn o bryd.
- Trafododd GE y digwyddiad cadwyn gyflenwi a gynhaliwyd yn Llandudno yn ôl ym mis Gorffennaf. Roedd yr adborth yn gadarnhaol tu hwnt ac roedd yn ddigwyddiad defnyddiol ar gyfer amlinellu'r cyfleoedd a'r heriau sy'n deillio o'r prosiect. Cyfaddefodd na all Horizon gyflawni'r prosiect hwn ar ei ben ei hun. Bydd angen i Horizon integreiddio â'r farchnad – ond mae angen i fusnesau ddechrau paratoi ar unwaith hefyd.
- O ran addysg a hyfforddiant, dywedodd GE mai nawr yw'r amser i hyfforddi pobl ifanc a phobl ddibrofiad fel eu bod yn cyrraedd y safon ofynnol a thu hwnt. Bydd angen iddynt fod yn barod ar gyfer cyflogaeth yn 2019/2020.
- Ychwanegodd GE fod creu diddordeb mewn pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg) mewn ysgolion/colegau/prifysgolion yn allweddol. Bydd cynllun prentisiaethau newydd Horizon yn cael ei lansio yn 2016, a dywedodd GE fod Horizon yn dal i ariannu cynllun prentisiaethau Cwmni Prentis Menai Coleg Menai, sydd wedi costio £360,000 hyd yma.
- I gloi, dywedodd GE ei fod yn gobeithio bod y gymuned yn teimlo ei bod yn cael ei chynnwys yn y broses o ddatblygu Wylfa Newydd, ond roedd bob amser yn awyddus i gael gwybod sut gallai Horizon wneud mwy. Dywedodd ei fod yn croesawu cwestiynau anodd, ac y gallai pobl gysylltu ag ef, drwy e-bost o ddewis, os nad ydynt yn hapus. Addawodd GE y byddai'n ymateb i unrhyw ymholiadau o fewn 24 awr.
  - Diolchodd DE i GE a gofynnodd a oedd gan unrhyw un gwestiwn.
- Cododd Jeff Evans (JE) y mater o bobl ifanc yn gadael Ynys Môn i ddod o hyd i waith. Dywedodd mai'r broblem sylfaenol oedd nad oedd amserlen derfynol i allu 'gwerthu' hyn i ddarpar weithwyr. Dywedodd fod ar bobl angen arian nawr a bod pobl yn gofyn iddo pryd bydd y swyddi hyn ar gael. Nid yw pobl yn siŵr pa gyfnod maent yn edrych arno – 5, 10 neu 20 mlynedd. Ychwanegodd JE y byddai pobl yn fwy tebygol o lawer o gymryd rhan mewn hyfforddiant sgiliau pe byddent yn gwybod yn bendant y byddai swydd ar gael mewn 5 mlynedd, er enghraifft, ac oni bai y gallai roi amserlen iddynt fe fyddent yn gadael yr ynys.
  - Eglurodd GE na allai roi dyddiadau pendant gan nad oedd Horizon wedi gwneud ei benderfyniad terfynol ynglŷn â buddsoddiad nac wedi cytuno ar gyllid ar gyfer y Prosiect eto. Ni fydd modd rhoi amserlen bendant hyd nes bydd Horizon wedi dod i gytundeb ynglŷn â'r cyllid hwnnw. Ceir rhestr wirio o ofynion cyfreithiol mewn perthynas â chyllid, fel proses yr Aseiad Dyluniad Generig (GDA), caniatâd cynllunio ac ati, ac mae modd cyflawni pob un o'r

rhain. Fodd bynnag, ceir rhai ffactorau anniriaethol sy'n amhosib eu mesur – cefnogaeth gymunedol, cefnogaeth wleidyddol a sgiliau'n ymwneud â'r gadwyn gyflenwi.

- Awgrymodd GE y dylai pobl fod yn gwneud eu penderfyniadau eu hunain i ddechrau hyfforddi a datblygu eu sgiliau nawr fel eu bod yn barod pan ddaw'r amser, yn hytrach nag aros i amserlen neu swydd benodol gael eu cyhoeddi'n ffurfiol a dechrau paratoi wedyn.
  - Ychwanegodd GE nad oedd yn meddwl y byddai unrhyw drafferth denu pobl yn ôl i Ynys Môn. Roedd ef ei hun yn cael o leiaf un neges bob dydd gan bobl oedd yn arfer byw yn lleol a oedd wedi symud i ffwrdd i weithio ond sy'n gobeithio dod yn ôl i Ynys Môn i weithio erbyn hyn.
- Mynegodd TC ei fod wedi cael ei siomi yn y diwydiant niwclear, yn bennaf oherwydd agwedd y Llywodraeth at gefnogi'r diwydiant.
  - Dywedodd TC hefyd nad oedd yn dderbyniol i wastraff niwclear gael ei storio ar y safle yn Wylfa Newydd.
  - Roedd yn croesawu'r cynllun prentisiaethau gan ei fod yn cofio mai prentisiaid oedd y bobl gyntaf i gael eu cyflogi ar y safle gwreiddiol, a'u bod hwythau wedyn wedi datblygu a symud ymlaen i swyddi uwch.

## **6. Y wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â Datblygu'r Safle – Charlie Tasker, Cyfarwyddwr Datblygu'r Safle**

- Dechreuodd Charlie Tasker (CT) drwy sôn am yr ymrwymiad anferthol mae Hitachi-GE wedi'i wneud i'r prosiect o ran buddsoddiad a staff. Ychwanegodd fod pawb yn teimlo'n gyffrous ynglŷn â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ond y bydd dal angen i Horizon gymryd y prosiect hwn un cam ar y tro.
- Trafododd CT waith arolygu parhaus Horizon, gan ddweud bod llawer wedi'i wneud yn barod ond bod mwy eto i'w wneud. Roedd maint y safle, sef 280 hectar, yn gwneud hon yn dasg hir a chymhleth.
- Mae ymestyn swyddfa'r safle yn flaenoriaeth arall – yn ogystal â gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwelliannau yr hoffai Horizon eu gwneud i'r A5025. Os ceir caniatâd a bod modd dechrau ar y gwelliannau, hwn fydd y tro cyntaf i bobl weld effeithiau ffisegol y Prosiect ar yr Ynys.
- Soniodd CT am y gwaith gwerthuso archaeolegol sydd i ddod gan Horizon. Mae hwn yn waith cloddio hanfodol fel bod modd archwilio'r safle mor drylwyr â phosib a chofnodi a rheoli unrhyw bethau sydd o ddiddordeb archaeolegol. Mae'n well bod yn ymwybodol o unrhyw ddiddordeb archaeolegol ymlaen llaw na digwydd dod ar eu traws yn ystod y cyfnod adeiladu oherwydd fe allai hynny arwain at lawer iawn o oedi yn y gwaith adeiladu. Mae'r gwaith archwilio ar fin dechrau. Eglurodd CT fod yr astudiaethau hyn yn rhan o'r llwybr hanfodol y mae'n rhaid ei ddilyn er mwyn i'r brif broses adeiladu allu dechrau yn 2018.
- Eglurodd CT, gan fod Horizon yn gobeithio adeiladu Cyfleuster Dadlwytho Morol wrth ymyl y safle (fel bod modd danfon deunyddiau adeiladu dros y môr), mae angen gwneud gwaith ymchwilio ar y môr er mwyn gallu deall mwy am wely'r môr. Mae'r gwaith hwn i fod i ddechrau ddiwedd Hydref 2015 a bydd yn dod i ben o gwmpas y Nadolig/y Flwyddyn Newydd.
- Dywedodd CT fod gwaith asesu'r effaith weledol yn faes pwysig i Horizon ganolbwyntio arno gan y bydd y dirwedd yn newid o ganlyniad i'r Prosiect. Mae Horizon yn awyddus i sicrhau bod y Prosiect yn cael cyn lleied o effaith weledol ag y bo modd ar y gymuned leol.

- Ychwanegodd CT fod astudiaethau amgylcheddol ac ecolegol yn cael eu cynnal yn gyson a bod hynny wedi bod yn digwydd er 2009. Mae Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig o fewn ffiniau'r safle ac mae Horizon wedi gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a ffermwyr lleol i wella'r ardal hon a chyflwyno'r mathau priodol o dda byw ar gyfer cynnal a chadw.
- Eglurodd CT y byddai llety gweithwyr yn dipyn o her gan y byddai hyd at 9,200 aelod o staff yn cael eu contractio yn ystod y cyfnod brig. Bydd rhai o'r gweithwyr hynny'n lleol, yn byw ar Ynys Môn yn barod, a bydd eraill yn teithio o Ogledd Cymru ac o rannau eraill o'r DU. Bydd angen i'r opsiynau a ffafrir ar gyfer llety gweithwyr weithio i Horizon ac i'r gymuned leol ac mae'r sylwadau cychwynnol a dderbyniwyd yn PAC1 yn cael eu hystyried yn ofalus.
- Mae'r cynlluniau eraill ar gyfer cyfleusterau ategol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn cynnwys cyfleusterau parcio a theithio a gwelliannau ffordd. Yn amodol ar dderbyn caniatâd angenrheidiol, mae Horizon wedi ymrwmo i ddechrau ar y gwaith o uwchraddio'r A5025 yn 2016, cyn dod i benderfyniad ar y buddsoddiad ariannol. Mae'r cynlluniau ar gyfer y gwelliannau hyn yn y camau terfynol. Os bydd Horizon yn cynnig bod gweithwyr yn cael llety yn Amlwch neu'r cyffiniau, bydd hefyd yn ystyried a oes angen gwneud gwelliannau i'r ffordd rhwng safle Wylfa Newydd ac Amlwch.
- I gloi, dywedodd CT fod Horizon yn cael trafodaethau â Dŵr Cymru ynghylch sut i gael dŵr i'r safle ar gyfer cam cyntaf y gwaith adeiladu, a fydd yn dechrau ym mis Mawrth 2019 fwy na thebyg. Gofynnodd CT a oedd gan unrhyw un unrhyw gwestiynau.
- Holodd Alun Roberts am nifer y gweithwyr yn ystod y cyfnod brig. Heddiw dyfynnwyd 9,200 ond yn y gorffennol mae'r amcangyfrif wedi bod oddeutu 8,000. Gofynnodd a fyddai'r ffigur yn aros ar 9,200 ynteu a fyddai'n codi eto yn y dyfodol.
  - Eglurodd CT mai'r rheswm am hyn oedd yr effaith 'stagro' a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod adeiladu. Felly yn hytrach na bod angen 8,000 o weithwyr dros gyfnod hirach, efallai y penderfynir lleihau'r cyfnod adeiladu i gyd gyda'i gilydd ac felly byddai angen mwy o weithwyr er mwyn cyflawni'r un amcan. Dywedodd nad oedd yn disgwyl i'r ffigur godi'n uwch na 10,000, ac ychwanegodd fod Horizon yn gweithio i'r 'sefyllfa waethaf bosib' er mwyn gwneud yn siŵr bod digon o le ar gael. Bydd Horizon yn gweithio i ddatblygu llif o sgiliau lleol, gan greu cyfleoedd i weithwyr lleol.
- Diolchodd y Cyng. Aled Morris Jones (AMJ) i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau a dywedodd fod hwn yn brosiect cyffrous i Ynys Môn a Gogledd Cymru. Soniodd am y 'dyddiau tywyll' pan benderfynodd y perchnogion blaenorol dynnu'n ôl a dywedodd ei fod yn gwerthfawrogi'r ffaith bod Horizon bob amser yn dryloyw wrth ddarparu gwybodaeth. Dywedodd AMJ ei fod yn dymuno gwneud tri phwynt:
  1. Roedd yn gobeithio gweld llwybrau beiciau'n cael eu cyflwyno gan eu bod yn bwysig am sawl rheswm, gan gynnwys i hyrwyddo byw'n iach.
  2. Roedd angen i Horizon gymryd camau cadarnhaol i wella'r ffordd rhwng y safle ac Amlwch.
  3. Roedd angen i gyfnod ymgynghori nesaf Horizon ymateb i'r materion a godwyd gan y Cyngor ac eraill yn ystod y cyfnod cyntaf o ymgynghori ffurfiol.
  - Dywedodd GE fod y syniad o lwybrau beiciau'n bryder o safbwynt iechyd a diogelwch. Soniodd am farwolaeth mewn cysylltiad â phrosiect yn Sir Benfro rai blynyddoedd yn ôl, a oedd yn dal i ddylanwadu ar ei deimladau ef am y mater. Fodd bynnag, roedd yn sylweddoli bod manteision o ran iechyd a lles yn gysylltiedig â chynlluniau beicio i'r gwaith.

Ychwanegodd hefyd y bydd y Trywydd Copr yn cael ei gadw ac yn cael ei ddargyfeirio er mwyn i seiclwyr allu parhau i ddefnyddio'r llwybr poblogaidd hwnnw.

- Ychwanegodd y Cyng. William Hughes (WH) at bwynt AMJ am yr A5025. Dywedodd ei fod ef hefyd yn dymuno sôn am y traffig ar y ffordd rhwng Wylfa ac Amlwch. Eglurodd WH ei fod wedi bod yn symud gwartheg ar draws y ffordd yn gynharach heddiw a bod hynny'n golygu stopio'r traffig am gyfnod byr. Yn sgil hyn bu'n rhaid i 17 o geir stopio ar yr ochr ddwyreiniol (yn mynd i gyfeiriad Amlwch) a 3 ar yr ochr orllewinol (yn mynd oddi wrth Amlwch). Os yw'r traffig fel yna heddiw, bydd yn annioddefol pan fydd y Prosiect yn cael ei adeiladu ac yn y cyfnod gweithredu.
- Ychwanegodd WH y byddai'n destun pryder arbennig ym mhentref Cemaes, lle ceir nifer o bobl mewn oed sydd angen croesi'r ffordd a phlant yn dod o'r ysgol. Pwysleisiodd eto fod hon yn ffordd beryglus iawn ac erfyn ar Horizon i ystyried gwneud gwelliannau iddi er mwyn ei gwella. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn cael ei ystyried yn ystod cam nesaf yr ymgynghoriad.
  - Roedd CT yn cytuno bod diogelwch ar y ffordd yn bwysig iawn a bod y rheini sy'n mynd ac yn dod o'r safle eisoes yn cael eu hannog i beidio â theithio i'r cyfeiriad hwnnw. Esboniodd hefyd fod Horizon yn gorfod dyrannu ei wariant cyllidebol a chanolbwyntio ar roi sylw i faterion sy'n ymwneud yn benodol â datblygu Wylfa Newydd. Ni fyddai'n briodol i Horizon edrych ar wneud gwelliannau i'r rhan honno o'r rhwydwaith ffyrdd oni bai fod ei gynlluniau'n cynnwys lleoli gweithwyr yn yr ardal o amgylch Amlwch. Dywedodd fod gan yr Awdurdod Priffyrdd hefyd rôl bwysig i'w chwarae o ran pryderon diogelwch sy'n bodoli'n barod.
  - Ymatebodd AMJ drwy ddweud bod cyswllt uniongyrchol rhwng Horizon a'r cynnydd mewn traffig a'i bod yn annheg rhoi'r cyfrifoldeb yn ôl ar ysgwyddau'r Awdurdod Priffyrdd.
  - Ymatebodd GE drwy ddweud bod y ffordd wedi bod yn beryglus erioed a'i fod wedi gwneud y gŵyn gyntaf amdani yn ôl yn 2003. Dywedodd fod hyn yn gyfrifoldeb i'r Awdurdod Priffyrdd ac i Horizon.
- Gofynnodd aelod (anhysbys) o'r Grŵp Cyswllt a oedd Horizon yn trafod opsiynau ar gyfer llety i weithwyr yn y dyfodol â Land and Lakes.
  - Dywedodd CT nad oedd Horizon yn cynnal trafodaethau â Land and Lakes ond roedd yn ymwybodol bod eu datblygiad yng Nghaergybi yn rhoi opsiwn i Horizon o ran llety i weithwyr. Mae Horizon yn dal i edrych ar ei gynlluniau yn y maes pwysig hwn a bydd yn cyflwyno ei gynigion yn ystod y misoedd nesaf.
- Gofynnodd aelod (anhysbys) o'r Grŵp Cyswllt am fwy o fanylion am lwybr y ceblau pŵer o dan y ddaear y dywedodd CT y byddent yn cael eu hailgyfeirio.
  - Eglurodd CT fod angen symud dwy gylched, y ddwy yn croesi safle Wylfa Newydd i gyfeiriad mynediad y safle ac yna'n mynd i gyfeiriad y de. Gallai roi manylion mwy penodol ar wahân pe byddai angen.

## **7. Unrhyw Fater Arall**

- Dywedodd TC fod contractwr diogelwch Horizon, G4S, wedi cael cryn argraff arno, ond holodd pam nad oedd y cyhoedd wedi cael gwybod y byddent yn patrolio'r ffyrdd o amgylch Cemaes?
  - Dywedodd CT nad ydynt yn patrolio'r ffyrdd a bod eu maes cyfrifoldeb nhw wedi'i gyfyngu i batrolio safle Wylfa Newydd yn unig.
- Dywedodd TC mai dyna'r argraff yr oedd yntau wedi'i gael hefyd, ac roedd wedi sylwi arnynt ar y ffyrdd o amgylch Cemaes yn ddiweddar, a hynny yn ystod y nos hefyd.



- Dywedodd CT y byddai'n tynnu sylw at y mater ac yn ymchwilio iddo ymhellach. Mae'n eithaf posib eu bod yn patrolio'r giât wrth ymyl Parc Lodge. Ychwanegodd eu bod wedi cael rhai problemau diogelwch ar y safle yn y gorffennol, ond nid oedd unrhyw broblem wedi codi ers i G4S ymgymryd â'r gwaith. Atgoffodd CT bawb am linell radffôn Horizon y gellir ei defnyddio i roi gwybod am faterion fel y rhain.
- **Nodyn wedi'r cyfarfod:** Mae Horizon wedi cadarnhau ar ôl y cyfarfod bod cyfrifoldebau G4S yn cynnwys archwilio pwyntiau mynediad at safle Wylfa Newydd yn rheolaidd ond ar hap – er enghraifft y giât i Parc Lodge.
- Holodd TC am Horizon yn mynd at berchnogion tai ar yr A5025. Mynegodd bryderon hefyd am y bwriad i symud tir mewn perthynas â thirweddu ar y safle, gan ddadlau nad oedd Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol PAC1 yn sôn am unrhyw symud tir tua'r dwyrain i gyfeiriad Cemaes fel rhan o waith tirweddu.
  - Ymatebodd CT drwy gadarnhau bod yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn cynnig gwaith cloddio tuag at Cemaes fel rhan o'r trefniadau arfaethedig ar gyfer tirweddu. Ychwanegodd fod Horizon yn awyddus i weithio gyda'i gymdogion agos drwy gyfyngu ar waith trwm rhwng 9.30 a 4pm a pheidio â gweithio ar benwythnosau.
  - Nid oedd yn gallu gwneud sylw am drafodaethau preifat ag unigolion.

## **8. Cloi**

Diolchodd DE i'r siaradwyr am eu cyflwyniadau ac i bawb arall am ddod i'r cyfarfod. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr. Daeth y cyfarfod i ben am 7.30pm.